



CYNGOR TREF  
**AMLWCH**  
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN  
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk  
Ffon/Tel: 01407 832 228

**Cyngor Tref Amlwch Town Council**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 28/2/2017 yn Siambr y Cyngor am 7yh.  
*Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday 28/2/2017 at 7pm.*

**Presennol / Present:**

Gareth W Roberts OBE, Myrddin W Owens, Meg Roberts, Nige Ault, Gordon Warren, Dafydd Roberts, Mike Roberts, Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Aled Jones

**Yn bresennol / In attendance:**

Carli Evans-Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translation)

**Ymddiheuriadau / Apologies:**

Helen Hughes, John Byast, Robert Whitfield, Miriam Sanders, Cyng/Cllr Richard Jones

**1 Croeso / Welcome**

Cadeirwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts ac fe groesawyd rheini oedd yn bresennol.  
*The meeting was chaired by Gareth W Roberts and those present were welcomed.*

**2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest,**

Wil Hughes – Ceisiadau cynllunio / *Planning applications*

**3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting**

Cymeradwywyd y cofnodion yn gywir gan Myrddin Owens, eilio gan Dafydd Roberts  
*The minutes were approved as correct by Myrddin Owens, seconded by Dafydd Roberts*

**4 Materion yn codi / Matters arising**

**4.1 Maes Parcio Porth Llechog / Bull Bay Car Park (5.2)**

Nid oedd diweddariad ar y maes parcio. Cytuno cysylltu a Cyng Richard Jones eto. Nodwyd bod yr aelodau yn bryderus am y sefyllfa ac nad oedd yn ymddangos bod unrhyw gamau yn cael eu cymryd.

*There was no update on the car park. Agreed to contact Cllr Richard Jones again. It was noted that members were concerned about the situation and that it did not appear that any steps were being taken.*

**4.2 Ynys Ynni / Energy Island (5.3)**

Cadarnhawyd bod pryderon ynglyn ag aelodaeth y grwp. Bydd yn bwnc ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol. Nodwyd siom mai fforwm at gyfer Mon oedd hwn i fod ac nad oedd y rhestr aelodaeth yn adlewyrchu hynnu. Pobl gogledd Mon dylai elwa o gael prosiectau mawr fel Wylfa Newydd gan mai'r bobl hynnu sy'n cael ei heffeithio mwyaf.

Roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd y Cyngor Sir wedi brwydro mwy dros bobl yr ynys.

*Confirmation was given that members were concerned about the group's membership. The matter will be a topic for future discussion. Disappointment was noted that this forum was for Anglesey and that the membership list did not reflect this. It is the people of North Anglesey that should reap the most benefit from Wylfa newydd as it is these people who are to be affected most*

*Councillors were disappointed that the County Council had not fought more for the people of Anglesey.*

#### **4.3 Llythyrau y/a Rhosgoch / Letters re Rhosgoch (5.4)**

Nodwyd nad oedd digon o wybodaeth wedi ei gynnwys yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf ac y dylid esbonio i aelodau'r cyhoedd yn darllen y cofnodion bod llythyrau/ebyst gan y cynghorwyr sirol wedi eu derbyn yn datgan eu cefnogaeth at ddatblygu gweryll i weithwyr Wylfa Newydd ar safle Rhosgoch.

*It was noted that sufficient information had not been included the minutes of the last meeting and that it should be explained to members of the public reading the minutes that letters/emails from the county councillors had been received declaring their support to develop a camp for Wylfa Newydd workers on the Rhosgoch Site.*

#### **4.4 Llyfrgell / Library**

Cafwyd wybod bod Menter Mon yn awyddus i gwrdd i drafod cynllun peilot posib i dreialu gwasanaethau ychwanegol yn y llyfrgell. Nodwyd bod adeilad Llyfrgell Amlwch wedi ei ddylunio fel llyfrgell; teimlai'r aelodau'n gryf mai gwasanaeth llyfrgell yn unig y dylid ei gynnig a bod y gwasanaeth technoleg gwybodaeth yn bwysig i'r gymuned.

*Menter Mon are eager to meet to discuss a possible pilot project to trial additional services at the library. It was noted that the Amlwch library building had been purpose built; members felt that a library service is what should be offered and that the IT service was important to the community.*

#### **4.5 Cwmni Cymuendol Amlwch Cyf**

Teimlwyd ei fod yn bwysig cadarnhau mai cwmni nid er elw (*not for profit*) yw'r cwmni ac nad oes unrhyw unigolyn yn cael tal – gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y siop. Mae'r siop ar agor ers bron i fis bellach ac mae cefnogaeth hyd yma wedi bod yn positif iawn. Hoffai Meg Roberts longyfarch pawb sydd wedi bod ynghlwm a'r prosiect hyd yma am eu llwyddiant. Mae'r siop wedi dechrau defyddio ystafell yn swyddfa'r cyngor i storio a gwirio rhoddion ac yn ddiolchgar iawn am y gytundeb i gael defyddio'r ystafell am bedair mlynedd.

*it was felt that it was important to note that the company is not for profit and that no individual was paid – volunteers run the shop. The shop has been open for nearly a month and support to date has been very positive. Meg Roberts wished to thank all involved with the project for their success. The shop has started to use a room at the council offices to store and sort donations, and are very grateful for the agreement to use the room for four years.*

#### **4.6 Swyddfa Bost / Post Office**

Mae'r Swyddfa Bost newydd wedi agor yn Spar erbyn hyn. Cytuno ysgrifennu llythyr o ddiolch i Age Well Amlwch am eu cefnogaeth i redeg gwasanaeth bws wythnosol i bensiynwyr gael nol eu pensiwn.

*The new Post Office has opened at Spar. Agreed to write a letter of thanks to Age Well Amlwch for their support in running the weekly bus service for pensioners wishing to collect their pension.*

#### **4.7 Llygru / Fly Tipping**

Nodwyd bod sbwriel yn dal i gael ei adael ger Pont Joseff. Nodwyd bod Cyng Richard Jones yn ymwybodol o'r broblem a'r lleoliad a chytuno cysylltu ag o eto am ddiweddariad.

*It was noted that items are still being left by Pont Joseff. It was noted that Cllr Richard Jones was aware of the issue and the location and it was agreed to contact him again for an update.*

### **5 Pwyllgorau Allanol / External Meetings**

#### **5.1 Un Llais Cymru / One Voice Wales**

Cafwyd grynodedb gan Meg Roberts o gyfarfod diwethaf y pwyllgor ardal. Nodwyd bod Eisteddfod wedi cyrraedd ei nod ariannol a bod y pwyllgorau i'w llongyfgarch am eu hymdrechion. Cafwyd hefyd wybod am bryderon ynglyn a gwastraff ymbelydrol a'r ymgynghoriad ar bolisi Cynulliad Cymru fydd i ddod yn y dyfodol agos.

*Meg Roberts agave an overview of the last area committee meeting. It was noted that the Eisteddfod had reached its financial goal and that the area committees were to be congratulated for their efforts. Members were also told of concerns regarding radio-active waste and the consultation on Welsh Government policy that will take place in the near future.*

#### **5.2 Grwp Rhanddeiliaid Wylfa (Magnox) Site Stakeholder Group**

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nodwyd ei fod wedi ysgrifennu yn gofyn am eglurhad am fater a drafodwyd yn ymwneud a diogelwch ond nad oedd wedi cael ymateb hyd yma. Cytuno byddai yn anfon copi o'r ebost at Cyng Aled Jones er gwybodaeth.

*A summary was given my Myrddin Owens. It was noted that he has written asking for further explanation on a matter that was discussed relating to safety but he was yet to have a response. Agreed he forward a copy of the initial email to Cllr Aled Jones for information.*

### **6 Cynllunio / Planning**

#### **6.1 Ceisiadau / Applications**

Roedd tri cais wedi'w ystyried gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. Cymeradwywyd eu sylwadau fel y ganlyn:

*Three planning applications had been considered by members of the Planning Committee. Their observations were approved as follows:*

- Y Fron Tan y Bryn Road (11C391B/VAR) – dim gwrthwynebiad / no objection
- Ysgol Syr Thomas Jones (11LPA101Z/CC) – dim gwrthwynebiad / no objection
- Fflatiau Bull Inn (11C643) – dim gwrthwynebiad / no objection

### **7 Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid / Finance Committee Report**

#### **7.1 Adroddiad Cyfarfod / Meeting Report**

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod diwethaf gan Myrddin Owens. Nodwyd bod nifer o daliadau wedi eu cymeradwyo a bod y rhestr ar gael gan y clerc i unrhyw aelod oedd am eu gweld. Cafwyd wybod bod dau gais am gefnogaeth ariannol wedi eu derbyn. Ni fydd y Cyngor yn cefnogi cais y Ffermwyr Ifanc gan ei fod yn groes i bolisi'r Cyngor. Roedd yr ail gais hefyd yn groes i bolisi'r Cyngor gan mai cais gan unigolyn ydoedd ond cytuno bydd y Cadeirydd yn rhoi cyfraniad o'i lwfans bersonol. Cytuno byddai croeso i unrhyw aelod arall gyfrannu hefyd petaent yn dymuno gwneud hynnu fel unigolion.

Argymell penodi John D Roberts yn archwilydd mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol, Cyngor Llawn yn cytuno wrth nodi ei fod wedi gweithio yn y maes ers nifer o flynyddoedd a bod ganddo'r cymhwysterau a'r profiad angenrheidiol.

Daw adroddiad gan y Pwyllgor Safonau yn dilyn eu harchwiliad o ddogfennau'r Cyngor.

Nodwyd bod camau eisioes wedi'w cymryd i ddelio a'r pwyntiau a godwyd ganddynt e.e. ffurflen datgan diddordeb newydd.

Nodwyd bod dau gwyn wedi eu derbyn ynglyn ac aelod o'r Cyngor. Mae'r cwynion wedi eu hanfon ymlaen at y Pwyllgor Safonau ond ni fyddent yn cymryd unrhyw gamau pellach nes ar ol yr achos llys (21/3/2017). Nodwyd nad oes gan Cyngor Tref Amlwch unrhyw hawliau i weithredu h.y. ei atal o'r Cyngor. Bydd y cwynion yn cael eu hanfon hefyd at sylw'r Ombwdsmon.

Daw cwyn hefyd am aelod o'r Cyngor Sir ynglyn a datgan diddordeb. Mae disgwyl mwy o wybodaeth gan y Swyddog Monitro. Nodwyd ei fod yn ddyletswydd ar aelodau i godi ymwybyddiaeth o unrhyw gam-ymddwyn.

Cafwyd gadarnhad bod swyddog o'r Clwb Pel Droed wedi cwrdd a'r Cadeirydd a bod taliad rhent wedi'i wneud. Pawb yn cytuno bydd cyfarfod gyda swyddogion eraill y clwb yn fuan i drafod telerau les newydd.

Cytuno bod gan y Clerc awdurdod i wario ar welliannau iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn cyrraedd oblygiadau statudol. Pawb yn hapus.

*Myrddin Owens gave an overview of the last meeting. It was noted that a number of payments had been approved and that the full list was available with the clerk for any members wishing to see it. Two applications for funding were discussed. The Council will not be supporting the Young Farmers as it goes against council policy. The second request also went against council policy as it was a request from an individual, but it was agreed that the Chair would contribute from his annual allowance. Agreed that any other member wishing to contribute could personally do so.*

*It was recommended to appoint John D Roberts the internal auditor for the financial year, full council agreed to his appointment noting that Mr Roberts has worked in the field for very many years and that he has the necessary experience and qualifications.*

*A report has been received from the Standards Committee following their audit of the Council's papers. It was noted that steps have already been taken to address the points noted e.g. updated declaration of interest form.*

*It was noted that two complaints had been received against a member of the council. The complaints have been forwarded to the Standards Committee but no further action will be taken until after the court hearing (21/3/2017). It was noted that the Town Council has no power to act i.e. suspension. The complaints will also be forwarded for the attention of the Ombudsman.*

*A complaint has also been received regarding a member of the County Council regarding declaration of interest. Further information is expected from the Monitoring Officer. It was noted that it is the members' responsibility to raise any concerns of mis-conduct.*

*It was confirmed that a representative of the Football Club had met with the Chair and that a rent payment had been received. All agreed that a further meeting is required with other committee members to discuss the terms of a new lease.*

*Agreed that the Clerk be given approval to spend on health and safety requirements to ensure that the building complies with statutory obligations. All present happy.*

## **9 Wylfa Newydd**

Cafwyd gyfarfod gyda Duncan Hawthorne, prif weithredwr Horizon, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio gyda'r cymunedau lleol. Bydd cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd o hyn allan. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar o gefnogaeth Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon ac yn gobeithio bydd y cyngorau lleol yn cydweithio ar faterion sy'n effeithio ar yr ardal.

*Having met with Duncan Hawthorne, Horizon's chief executive, he acknowledges the importance of working with the local communities. Regular discussions and meetings will be held from now on. The council were grateful for the support of the North Anglesey Councils' Partnership and hopes that local councils would continue to work together on matters affecting the region.*

## **10 Gohebiaeth / Correspondence**

Dim/None

## **11 Unrhyw fater arall / Any other business**

### **11.1 Tim Pel Droed (Cerdded) Amlwch (Walking) Football Team**

Nodwyd bod y tim wedi bod yn llwyddianus yn ddiweddar a chytuno ysgrifennu atynt i'w llongyfarch a diolch iddynt am gynrychioli'r dref. Mike Roberts i basio manylion cyswllt i'r clerch cyn gynted a phosib.

*It was noted that the team had been successful of late and it was agreed to write to them to congratulate them and thank them for representing the town. Mike Roberts to pass on the contact details to the clerk as soon as possible.*

### **11.2 Trehinion**

Nodwyd bod rhai o'r coed angen sylw yn y maes agored. Mae Mike Roberts yn barod i godi sbwriel ac fe ddiolchwyd iddo am fod yn barod i roi ei amser. Nodwyd hefyd ei fod wedi gosod dros ugain o focus adar yn y coed dros yr wythnosau diwethaf a bod rai yn cael eu defnyddio yn barod. Cytuno byddai angen cyfarfod o bwyllgor parciau a mannau agored yn fuan.

*It was noted that some trees required work in the open area. Mike Roberts is prepared to litter pick and he was thanked for volunteering his time. It was also noted that he had placed over twenty bird boxes in the trees and that some were already in use. Agreed to arrange a meeting of the parks and open spaces committee soon.*

### **11.3 Cariad Amlwch**

Deallwyd bod grwp Cymunedol newydd wedi ei sefydlu, nodwyd bod hyn ym amserol iawn. Pan ofynnwyd i Gadeirydd y Cyngor am gymorth ariannol mewn cyfarfod o'r grwp, pwylseisiodd bod polisiau a phrosesau i'w dilyn. Roedd y grwp yn awyddus iawn i ail gynnal y rasmus raft blynyddol ym, Mhorth Llechog. Nodwyd y byddai angen maes parcio a thoiledau i fedru cynnal y fath ddigwyddiad.

*It was understood that a new community group had been established, and that this was very timely. When asked for financial support at a group meeting, the Chair of the Council emphasised that there were policies and procedures to follow. The group were very eager to rekindle the annual raft race at Bull Bay. It was noted that a car park and public toilets would be required to stage such an event.*

### **11.4 Penycefn**

Nodwyd bod nifer wedi bod yn cwyno am or-yrru yn yr ardal yma o'r dref a chadarnhawyd bod y pryderon wedi'i basio ymlaen i Cyng Richard Jones.

Daw hefyd cwynion am gyflwr y lon ym Mhencefn, mae Cyng Aled Jones wedi cysylltu a'r Cyngor Sir sydd wedi datgan eu bod yn disgwyl i dwr Cymru gwblhau darn o waith cyn ail-wynebu'r ffordd.

*It was noted that a number of people are complaining about speeding vehicles in the area and it was confirmed that the concerns had been forwarded to Cllr Richard Jones.*

*There are also complaints about the state of repair of the road. Cllr Aled Jones has contacted the County Council who have declared that they are waiting on Welsh Water to complete a piece of work before re-surfacing the road.*

#### **11.5 Banc Bwyd / Foodbank**

Yn dilyn trafodaethau gyda'r banc bwyd a Medrwn Mon, ac wrth ystyried sefyllfa presennol y grwp, cytuno cynnig iddynt ddefnyddio un o ystafelloedd gefn y Swyddfa am ddiwrnod yr wythnos am £10 yr wythnos. Cytuno byddai hyn o fudd i'r grwp ac hefyd yn gyfle i hyrwyddo eu gwansaethau i gynulliedfa ehangach. Cytuno cynnig trwydded i'r grwp am ddefnydd ystafell y cychwyn Mawrth 1af.

*Following discussions with the foodbank and Medrwn Mon, and considering the group's current situation, it was agreed to offer them the use of one of the back office rooms for a day a week at a cost of £10 per week. Agreed that this would be of benefit to the group and also an opportunity to promote their services to a wider audience. Agreed to offer the group a license for the room starting March 1<sup>st</sup>.*

#### **12 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth 28/3/2017 am 7yh.

*The next meeting will be held Tuesday evening 28/3/2017 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 19.50 o'r gloch. / *The meeting closed at 19.50.*

CET03/2017

**Arwyddwyd / Signed**  
**Gareth Winston Roberts OBE**  
**Cadeirydd / Chair**